

## Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 26<sup>ain</sup> Chwefror 2015

a gynhaliwyd yn CAVS, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin am 6pm

### **Yn bresennol:**

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

### **Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd  
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd  
David Stacey (DS)  
Chris Rankin (CR)  
Glyn Evans (GE)  
Eric Jones (EJ)

### **Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**

Jane Tibbott – Llywodraeth Cymru – Taliadau Gwledig  
Phil Stone - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)  
Geoff Williams – Y Cerddwyr  
Jason Lawday – Cynorthwydd Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad

### **Ymddiheuriadau (Aelodau)**

Eric Davies (ED)  
Keith Morgan (KM)  
Caroline Evans (CE)  
Ed Percy (EP)  
Alan Warner (AW)  
Jillie Gardiner (JG)

### **Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)**

Cyng. Deryk Cundy (DC) – Cadeirydd y  
Pwyllgor Craffu Cymunedau  
Cyng. Meryl Gravell – Aelod o'r  
Bwrdd Gweithredol  
Lowri Jones – Uwch Gynorthwydd  
Gwybodaeth Twristiaeth

EITEM	CAM GWEITH -REDU
<b>Eitem 1 Croeso</b> – Estynnodd JT groeso i bawb i'r cyfarfod.	
<b>Eitem 2 Cyflwyno'r Aelodau</b>  Hwn oedd cyfarfod cyntaf tymor newydd y Fforwm, ac felly cyflwynodd yr aelodau eu hunain. Mae tymor newydd y Fforwm yn para am 3 blynedd o ddyddiad y cyfarfod hwn.	
<b>Eitem 3 GLASTIR – Cyflwyniad gan Jane Tibbott, Llywodraeth Cymru</b>  Mae Jane wedi'i lleoli gyda Thaliadau Gwledig Cymru, yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y Drenewydd, Powys ac mae hi'n gyfrifol am 5 o Reolwyr Contractau Glastir. Dywedodd Jane y bydd rhai newidiadau sylweddol i'r cynllun Glastir 2016 o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd sy'n aros i gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Dechreuodd Glastir yn 2012 fel Cynllun fferm gyfan 5 mlynedd.  Gofynnodd JT a oedd gofyniad yn y cynllun i berchnogion tir/ffermwyr gadw hawliau tramwy cyhoeddus dros eu tir yn agored ac yn hygyrch. Os oedd, beth oedd y dull gorfodi? Dywedodd Jane fod gofyniad yn y cynllun i gadw hawliau tramwy cyhoeddus yn agored ac os nad oeddynt yna gallai'r awdurdod lleol	

<p>gyfeirio'r mater at Arolygiaeth Taliadau Gwledig - Cymru. Gofynnodd JT sut y byddai'r awdurdod lleol yn gwybod bod ffermwr/perchennog tir a'r tir perthnasol yn y cynllun Glastir. Dywedodd Jane na fyddai setiau data yn cael eu rhoi i'r awdurdodau lleol ynghylch pa dir oedd yn y cynllun gan fod contractau Glastir a'r wybodaeth am y perchennog tir yn breifat. Dywedodd Jane y gellid, fodd bynnag, dal cyfeirio'r mater at Arolygiaeth Taliadau Gwledig - Cymru a byddent hwy wedyn yn gwirio a oedd y tir perthnasol yn y cynllun. Dywedodd JT y byddai hynny'n golygu bod posibilrwydd y byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfeirio pob achos o rwystro/gau hawliau tramwy cyhoeddus at yr Arolygiaeth yn yr hanner gobaith y byddai'r tir yn y cynllun Glastir gan olygu y byddai'r Arolygiaeth (tîm cymharol fach) yn cael eu boddi gan ymholiadau. Ymddengys nad oedd y system hon yn ymarferol. Dywedodd JT, o ran Tir Gofal (cynllun amaeth-amgylchedd blaenorol), bod yr Awdurdod Lleol wedi cael y setiau data ynghylch pwy oedd yn y cynllun.</p> <p>Hefyd gofynnwyd i Jane ynghylch mynediad caniataol. O'r blaen roedd y Fforymau wedi cael eu gofyn i nodi llwybrau mynediad caniataol penodol a defnyddiol. Ond roedd yr adborth a gafwyd gan y Fforymau yn amrywio. Unwaith eto roedd y Fforymau wedi cael yr un broblem sef os na allent wybod a oedd y tir yn y cynllun Glastir ni fyddent yn gwybod a fyddai'n wrth chweil cynnig llwybr. Unwaith eto ymddengys bod y broses yn anfoddfaol. Dywedodd Jane y gallai'r Fforwm gyflwyno datganiadau o ddymuniad cyffredinol yn nodi rhannau o'r sir lle byddai mynediad caniataol yn ddefnyddiol e.e. ar gyfer reidwyr ceffylau. Yn ogystal, os oedd ffermwr yn dymuno cynnig mynediad caniataol o dan y cynllun Glastir (a chael y taliad cysylltiedig) byddai'n rhaid iddo ef/iddi hi gysylltu â'r Fforwm yn gyntaf er mwyn i'r Fforwm gymeradwyo'r llwybr arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r nod 'mynediad' yn y cynllun Glastir Uwch yn wirfoddol/ddewisol. Diolchwyd i Jane am ddod i'r cyfarfod ac am egluro esblygiad Glastir. Amgaeir copi o gyflwyniad Jane ynghyd â manylion pellach.</p>	
<p><b>Eitem 4 - Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd</b></p> <p>Etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd a Karen Burch yn Is-gadeirydd. Cyflwynodd Mark ei hun fel Cadeirydd a nododd rai o'i flaenoriaethau ar gyfer dyfodol y Fforwm gan gynnwys recriwtio a sefydlu rôl y Fforwm fel ymgynghorai gydag adrannau'r Cyngor.</p> <p>Diolchodd y Fforwm i Karen Burch am ei chyfraniad fel Cadeirydd dros y tymor 3 blynedd blaenorol.</p>	
<p><b>Eitem 5 Ymddiheuriadau</b> - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p><b>Eitem 6 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 20 Tachwedd 2014</b></p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo.</p>	
<p><b>Eitem 7 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod ar 20 Tachwedd 2014</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gorchmynion Rheoli Cŵn</b> - darparodd JT neges e-bost a dderbyniodd y diwrnod hwnnw gan Michael Roberts, Swyddog Polisi a Strategaeth Gorfodi Materion Amgylcheddol, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. Roedd yr e-bost yn nodi y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Craffu fory a bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno eisoes. Roedd y Fforwm yn synnu'n fawr nad ymgynghorwyd â nhw ynghylch yr adroddiad a phenderfynwyd y dylid cael cyfarfod â Michael Roberts i drafod eu pryderon.</li> </ul>	<p><b>MH/ JT</b></p>

<p><b>Eitem 8 Diweddariad ynghylch Gwaith Cynnal a Chadw/Grantiau</b></p> <p>Rhoddodd Jason Lawday, Parcmon Mynediad i Gefn Gwlad, wybodaeth ynghylch gwaith grantiau/gwella a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Dîm Gweithrediadau Cefn Gwlad CSC.</p> <p>Dywedodd MH a KB y dylai'r mater hwn fod yn eitem reolaidd ar agenda'r Fforwm gan ofyn a fyddai modd darparu gwybodaeth ar daenlen yn y dyfodol. Byddai JT yn gofyn i'r Tîm Gweithrediadau Cefn Gwlad ddarparu gwybodaeth yn y ffurf honno.</p>	<p><b>JT</b></p>
<p><b>Eitem 9 Unrhyw Fater Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Lleol-i</b> - dywedodd JT y byddai'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn trefnu i'r system mapio Hawliau Tramwy Cyhoeddus fod ar gael ar-lein drwy wefan a chyfleuster mapio lleol-i newydd y Cyngor.</li> <li>• <b>Teithio Llesol</b> – darparodd JT neges e-bost gan Simon Charles oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. Roedd Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi cyfarwydddeb glir ynghylch y gofynion mapio.</li> <li>• <b>Trawsgydymffurfio</b> – dywedodd JT fod Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru i drafod sut y gallai'r gofyniad i gadw hawliau tramwy cyhoeddus yn agored ac yn ddirwystr gael ei gynnwys yn y cynllun Taliad Sengl (Taliad Sylfaenol bellach) yn y dyfodol (fel ag y mae yn Lloegr).</li> <li>• <b>BOAT (Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig) 58/14</b> – roedd MH wedi cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ynghylch y Gilffordd hon sydd wrth groesi'r ffin yn mynd yn RUPP (Ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus) y maent hwy'n bwriadu ei hailddosbarthu. Bydd MH yn rhoi rhagor o fanylion yn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm.</li> </ul>	<p><b>MH</b></p>
<p><b>Eitem 11 - Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf</b></p> <p>Dyddiadau'r cyfarfodydd am weddill y flwyddyn, sydd i'w cynnal am 6pm ar ddydd lau yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin yw:</p> <p>21<sup>ain</sup> Mai 2015  27<sup>ain</sup> Awst 2015  19<sup>eg</sup> Tachwedd 2015</p>	